# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Bodelwyddan Residential Care Limited**

**Ffordd Belan**
**Rhosneigr**
**LL64 5JG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

20/01/2025

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2025.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Bodelwyddan Residential Care Limited

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Bodelwyddan Residential Care Ltd. |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 5 Hydref 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bron bob dydd, felly mae'n goruchwylio'r gwasanaeth yn dda. Mae'n gwirio cofnodion yn rheolaidd, yn archwilio'r amgylchedd ac yn siarad â phreswylwyr a pherthnasau i weld a ydynt yn fodlon ar y gwasanaeth. Caiff anghenion pob unigolyn eu hasesu cyn iddo symud i'r cartref i sicrhau y gall gyd-dynnu ag eraill ac y gall y gwasanaeth ddiwallu ei anghenion. Caiff cynlluniau personol eu llunio i ddiwallu anghenion y bobl a rheoli risgiau, ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw ansawdd y wybodaeth a gofnodir yn gyson ym mhob cynllun ac mae hwn yn faes i'w wella. Mae'r bobl yn mwynhau byw yma ac yn teimlo bod y gwasanaeth yn gartrefol ac yn gyfeillgar, ac yn cynnig cyfeillgarwch a chymorth pan fo angen. Cânt ddewis eu trefn o ddydd i ddydd, eu gweithgareddau a'u prydau. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant i ddarparu'r cymorth cywir ac maent wedi cael eu fetio'n ofalus fel rhan o'r weithdrefn recriwtio. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi ac maent yn mwynhau eu gwaith. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân, yn gynnes ac yn groesawgar. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn buddsoddi yn yr adeilad, gan addurno a newid gosodiadau a ffitiadau pan fo angen, a chaiff gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd eu cwblhau i gadw'r cartref yn ddiogel.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd. Gwrandewir arnynt a chânt eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau sy'n effeithio arnynt. Maent yn dewis eu prydau, eu trefn o ddydd i ddydd a sut a ble i dreulio eu hamser.  Maent yn siarad eu dewis iaith gan fod y staff yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref bron bob dydd ac yn siarad â'r bobl am eu llesiant; mae'r rheolwr a'r staff yn hawdd mynd atynt ac maent yn darparu amgylchedd lle mae'r bobl yn teimlo'n rhydd i fynegi eu barn a gwneud awgrymiadau.

Mae'r bobl yn cael cymorth gyda'u hiechyd corfforol, eu hiechyd meddwl a'u llesiant emosiynol. Mae'r staff yn sylwgar, yn gwrtais ac yn dangos parch tuag at y bobl a gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cadarnhaol. Mae'r staff gofal yn cadw llygad ar lesiant y bobl drwy gydol y dydd mewn ffordd gynnes a gofalgar. Mae'r rhan fwyaf, ond nid pob un, o'r cynlluniau personol yn cynnwys digon o wybodaeth i'r staff wybod pa ofal sydd ei angen ar y bobl a'r hyn y maent yn ei hoffi ac nad ydynt yn ei hoffi. Mae hwn yn faes o'r gwasanaeth y mae angen ei wella.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod posibl gan fod y staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau a gweithdrefnau yn cadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn lleoli eu hunain yn y cartref fel y gall pawb eu gweld ac fel y gall y preswylwyr, eu perthnasau a'r staff gael gafael arnynt yn hawdd. Mae'r staff gofal a'r bobl sy'n byw yn y cartref yn teimlo eu bod yn hawdd mynd atynt. Mae'r staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel i sicrhau eu bod yn addas, a chânt hyfforddiant ar feysydd gofal pwysig. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau hapwiriadau, gan ymweld â'r cartref ar adegau annisgwyl i sicrhau bod y staff yn ymgymryd â'u rolau yn unol â disgwyliadau.

Caiff ymwelwyr eu croesawu ac mae cyfarfodydd rhwng y bobl sy'n byw yn y cartref a'u perthnasau yn cael eu hwyluso drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys cyfarfodydd rhithwir ar ddyfeisiau llaw. Ceir lolfa dawel lle gall y bobl sgwrsio â'u gwesteion. Daw plant o ysgolion lleol a diddanwyr i'r cartref yn achlysurol. Mae'r staff gofal yn mwynhau mynd â'r bobl allan am dro pan fydd ganddynt amser, fel y gall y bobl gynnal eu cysylltiadau â'r gymuned.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion ac sy'n gwneud iddynt deimlo'n gartrefol. Mae gan y bobl eu pethau eu hunain o'u hamgylch yn eu hystafelloedd ac mae amrywiaeth o ardaloedd ar gael iddynt eistedd a threulio eu hamser. Gellir cyrraedd y llawr cyntaf drwy lifft grisiau a cheir ystafell ymolchi ar bob llawr. Mae'r cartref yn lân, yn gyfforddus ac yn gartrefol ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n byw yma.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl gynlluniau personol wedi'u dogfennu sy'n nodi sut y dylid diwallu eu hanghenion, ond nid ydynt bob amser yn cael eu cwblhau'n gynhwysfawr. Gwelsom fod asesiadau cyn derbyn yn darparu digon o wybodaeth i benderfynu a all y gwasanaeth ddiwallu anghenion yr unigolyn. Caiff cynlluniau ac asesiadau risg eu diweddaru drwy eu hadolygu'n rheolaidd, ond gwelsom anghysondeb o ran y ffordd y caiff cynlluniau personol eu cwblhau a'u hansawdd. Mewn rhai ohonynt, caiff tasgau eu rhannu'n gamau i hysbysu'r staff gofal ynghylch sut y dylid cynorthwyo'r unigolyn, ond nid oes digon o fanylder mewn rhai eraill. Mae rhai, ond nid pob un o'r cynlluniau, yn nodi canlyniadau dymunol y bobl yn glir; nododd un, '*to ensure X is included and feels part of the home*' ond nid yw cynlluniau eraill yn cofnodi unrhyw ganlyniadau. Nid oedd un cynllun personol wedi ei gwblhau; nid oedd yn darparu gwybodaeth am anghenion maeth yr unigolyn, ei hoff bethau a'i gas bethau na'i anghenion ymataliaeth. Nid oedd rhai o'r anghenion a nodwyd yn ddigon manwl, felly nid yw'n glir bob amser i'r staff gofal o edrych ar y cynllun ble mae angen cymorth a'r hyn y gall yr unigolyn ei wneud drosto'i hun. Dylai pob unigolyn gael cynllun personol cyflawn sy'n nodi'r gofal sydd ei angen arno i ddiwallu ei anghenion a chyflawni ei ganlyniadau. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Caiff y bobl ofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt. Dywedodd y bobl wrthym fod ganddynt bopeth sydd ei angen arnynt a bod eu hanghenion i gyd yn cael eu diwallu. Roedd un unigolyn yn fodlon ar brydlondeb y gofal '*whenever I need it'*, a'r cyfeillgarwch y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu. Gwnaeth y bobl ganmol y bwyd a'r dewisiadau sydd ganddynt; mae bwydlen tair wythnos yn dangos amrywiaeth o brydau cartref maethlon. Maent yn hoffi gallu dilyn eu trefn o ddydd i ddydd ar eu cyflymder eu hunain, gan ddewis pryd i fynd i'r gwely a phryd i godi. Mae un unigolyn yn mwynhau cael cawod bob bore a chaiff ei gefnogi i wneud hyn. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau pan fyddant yn cael eu trefnu. Caiff eu hewinedd eu paentio ac maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celf a chrefft a gemau.

Mae gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill ar gael i'r bobl yn gyson. Mae gan y gwasanaeth gydberthynas waith dda â'r meddyg teulu lleol sy'n ymweld â'r cartref os bydd unrhyw un yn sâl. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'n brydlon os bydd rhywun yn sâl. Dywedodd unigolyn wrthym ei fod yn teimlo'n sâl, a'i fod wedi dweud wrth y staff. Nodwyd gennym fod y meddyg teulu wedi cael ei alw ar unwaith. Caiff cofnodion dyddiol eu cadw o gysylltiadau â gweithwyr iechyd proffesiynol a'r gofal a ddarperir. Caiff gwybodaeth am unrhyw newidiadau ei rhannu â'r staff gofal, fel eu bod yn gwybod sut i ddiwallu anghenion

y bobl. Mae cofnodion yn dangos apwyntiadau a fynychwyd, gydag optegydd, deintydd a chiropodydd, er enghraifft. Mae gan y gwasanaeth systemau diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Mae archwiliad fferyllol wedi cael ei gwblhau ac mae mesurau ychwanegol wedi cael eu rhoi ar waith i helpu i sicrhau bod arferion meddyginiaeth yn parhau i fod yn ddiogel.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac yn hyrwyddo eu llesiant. Mae'r cartref yn lân ac yn gyfforddus, ac mae'r bobl yn teimlo'n gartrefol yma. Caiff ystafelloedd gwely'r bobl eu personoli â phethau sy'n bwysig iddynt. Caiff ffotograffau a lluniau eu hongian ar y waliau ac mae llyfrau a deunyddiau hobi yn cael eu cadw ar eu cypyrddau. Gall y bobl wylio'r teledu yn eu hystafelloedd neu wrando ar eu radio. Gwnaethom gwrdd â phobl a ddywedodd eu bod yn mwynhau edrych allan drwy eu ffenestr a gwylio'r hyn sy'n digwydd y tu allan. Maent yn teimlo'n gyfforddus yn eu hystafell ond maent yn gwybod y gallant gymdeithasu ag eraill yn y lolfa os byddant yn dymuno gwneud hynny. Mae'r ystafell fwyta yn groesawgar gyda byrddau wedi'u gosod yn daclus ar gyfer amseroedd bwyd. Mae'r ystafelloedd ymolchi yn fodern ac yn olau, gyda bathiau y gellir eu haddasu'n llawn a chawod. Ceir digon o doiledau. Mae tair ystafell gymunedol ar gael, fel y gall y bobl ddewis ble i dreulio eu diwrnod. Mae'r bobl yn mwynhau eistedd yn yr ardd pan fydd y tywydd yn caniatáu.

Mae'r cartref yn ddiogel, ac mae'n rhaid i ymwelwyr ganu'r gloch i dynnu sylw'r staff a llofnodi wrth iddynt gyrraedd a gadael yr adeilad. Cafodd ein manylion adnabod eu gwirio cyn inni fynd i mewn i'r cartref.  Gwelsom gofnodion iechyd a diogelwch y cartref a gwelsom fod gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau gan gontractwyr allanol ac yn rheolaidd gan y staff. Gwelsom dystysgrifau yn cadarnhau gwiriadau diogelwch nwy a chyflwr gosodiadau trydanol. Mae profion ar ddyfeisiau trydanol, profion ar gyfarpar symudedd a phrofion ansawdd dŵr wedi cael eu cynnal. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gwirio pob rhan o'r adeilad bob tri mis o leiaf i chwilio am ardaloedd y mae angen rhoi sylw iddynt, eu hatgyweirio neu'u hadnewyddu ac mae'r staff hefyd yn cofnodi materion mewn cofnodlyfr a gedwir ar gyfer yr unigolyn cynnal a chadw. Mae sinc, carpedi a llenni newydd wedi cael eu gosod mewn un ystafell wely yn ddiweddar. Mae cofnodion yn dangos bod camau'n cael eu cymryd yn gyflym i fynd i'r afael â materion y nodwyd bod angen eu hatgyweirio.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau ar waith sy'n sicrhau bod yr Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth dda. Mae'n bresennol yn y cartref y rhan fwyaf o ddiwrnodau ac yn sicrhau ei fod bob amser yn weladwy. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau adroddiad ar ei ymweliad bob tri mis, ac mae'r adroddiadau hyn yn dangos ei fod yn siarad â'r preswylwyr, bod yr amgylchedd yn cael ei archwilio, bod trafodaethau'n cael eu cynnal â'r staff, gan gynnwys y cogydd, a bod prydau'n cael eu hadolygu; caiff cofnodion megis siartiau rhoi meddyginiaeth eu gwirio i sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn gywir. Dylid cwblhau adroddiad ddwywaith y flwyddyn sy'n asesu ansawdd y gofal yn y gwasanaeth a chadarnhaodd y rheolwr ei fod yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn. Bydd y gwasanaeth yn ailddechrau rhoi holiaduron i'r bobl, eu perthnasau, y staff a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld er mwyn casglu eu barn ar y gwasanaeth, nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a ble y gellid gwneud gwelliannau. Mae'r rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru ac mae'n gweithio i ennill y cymhwyster gofynnol. Caiff ei gefnogi gan yr Unigolyn Cyfrifol. Gofynnir am safbwyntiau'r bobl ar agweddau ar y gwasanaeth bob dydd, ac mae yna flwch awgrymiadau i'r bobl gyflwyno eu syniadau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gwrandewir arnynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac mae cofnodion cyfarfodydd staff yn dangos y caiff gwybodaeth ei rhannu ac y gofynnir am safbwyntiau.

Caiff y bobl eu cefnogi gan nifer priodol o staff addas sy'n meddu ar y wybodaeth a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau gofynnol o ofal a chymorth. Mae ffeiliau'r staff yn dangos gweithdrefnau recriwtio effeithiol. Caiff y staff eu fetio i sicrhau eu bod yn addas, ac yna cânt eu sefydlu i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithio. Mae'r cofnodion yn dangos bod hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau perthnasol yn orfodol a chadarnhaodd y staff gofal eu bod yn cael digon o hyfforddiant.

Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael cymorth da gan eu rheolwr drwy sesiynau goruchwylio un i un a chymorth anffurfiol o ddydd i ddydd. Maent yn teimlo y gwrandewir arnynt ac y caiff eu hamgylchiadau personol eu parchu a'u hystyried wrth drefnu rotas. Dywedodd y staff wrthym mai'r peth gorau am weithio yma yw'r bobl y maent yn gofalu amdanynt; maent yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo bod y cartref fel teulu iddynt. Maent yn teimlo'n gymwys i wneud eu gwaith. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y staff yn gwybod am chwythu'r chwiban a gall pawb fod yn hyderus y bydd cwynion yn cael eu cymryd o ddifrif ac y bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal iddynt.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 15 | Gwelsom nad oedd cynlluniau personol bob amser ar waith i gofnodi'r cymorth sydd ei angen ar y bobl i ddiwallu eu hanghenion ac i gyflawni eu canlyniadau. | Heb Gyflawni |
| 59 | Ni chaiff cofnodion sy'n dangos sut y caiff gofal a chymorth eu darparu eu llunio yn ddyddiol. Dylai'r cofnodion hyn fod ar gael i adlewyrchu'r gofal a'r cymorth y mae'r bobl wedi'u cael. Mae hyn yn cynnwys cwblhau'n llawn y siartiau a ddefnyddiwyd i gefnogi'r bobl sy'n cael gofal ar gyfer eu croen. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/03/2025